

## Cyngor Prifysgol Cymru

Cofnodion **ANGHYFYNGEDIG** y cyfarfod rhithiol a gynhaliwyd am 11. 45a.m. ddydd Iau 26 Tachwedd 2020

Yn bresennol:

Yr Hybarch Randolph Thomas  
(Cadeirydd)

Tony Ball

Pam Berry

Margaret Evans

Andrew Curl

Eifion Griffiths

Yr Athro Medwin Hughes

Arwel Ellis Owen

Dr Stuart Robb

Nigel Roberts

Dr Liz Siberry

Maria Stedman

Yn gweinyddu:

Sarah Clark, Clerc y Cyngor

Steve Baldwin Cyfarwyddwr Cynllunio Ariannol Strategol a Dadansoddi Busnes

Gavin Bessant Cyfarwyddwr Gwasanaethau Ariannol

Shône Hughes, Pennaeth Staff

Yr Athro Dylan Jones, Dirprwy Is-Ganghellor

Yr Athro Catrin Thomas, Dirprwy Is-Ganghellor (Academaidd)

Ray Selby (Cofrestrydd)

Margaret Williams (Ysgrifennydd)

Cofnod	Prif bwyntiau trafod	Cam gweithredu/penderfyniad
20.32 Ymddiheuriadau am absenoldeb	DERBYNIODD CPC ymddiheuriadau am absenoldeb gan Deris Williams.	
20.34 Datganiadau o Fuddiant	DERBYNIODD CPC y Datganiadau buddiannau fel y'u nodir yn adroddiad y Clerc (UWC160).	
20.33 Cofnodion Cyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2020	CADARNHAODD CPC gofnodion cyfyngedig y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Hydref 2020 (UWC161)	
20.34 Materion sy'n codi	Nid oedd unrhyw faterion yn codi.	
20.35 Adroddiad PREVENT	CYMERADWYODD CPC ddatganiad atebolwydd ac adroddiad monitro PREVENT (UWC162).  Cyfeiriodd y Clerc yr aelodau at y camau a gymerwyd mewn perthynas â phartneriaethau cydweithredol a nododd fod holl staff PC wedi'u hyfforddi mewn perthynas â PREVENT.	
20.36 Materion Archwilio a Risg	YSTYRIODD CPC adroddiadau cyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Risg a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2020 (UWC 163) a 19 Tachwedd 2020 (UWC164).  Adroddodd Cadeirydd y PAR nad oedd yr Archwilwyr Allanol wedi cwblhau'r gwaith ar Ddatganiadau Ariannol PC 2019/20 ond eu bod wedi cadarnhau na ddisgwyliid unrhyw faterion o bwys.  Cyfeiriodd Cadeirydd y PAR at yr Adroddiad Archwilio Mewnol a nododd fod nifer o adolygiadau wedi'u gohirio oherwydd pandemig Covid-19. Trefnwyd archwiliadau o Wasg PC a'r CBM i'r Drindod Dewi Sant ar gyfer 2020/21.  Adroddodd y Clerc y dylid cyflwyno adroddiad blynyddol y PAR i'r Cyngor gyda'r Datganiadau Ariannol.	
20.37 Adnoddau a Pherfformiad	YSTYRIODD CPC adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Adnoddau a Pherfformiad a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2020 (UWC 165).	

Cofnod	Prif bwyntiau trafod	Cam gweithredu/penderfyniad
Adroddiad llif ariannol ac arian parod	<p>DERBYNIODD UWC y wybodaeth ddiweddaraf am y Datganiadau Ariannol a'r sefyllfa ariannol a'r llif arian.</p> <p>Adroddodd y DFS fod disgwyl cwblhau'r Datganiadau Ariannol cyn y Nadolig ac nad oedd yr adolygiad cychwynnol o bryder gweithredol yn tynnu sylw at broblemau. Roedd y Datganiadau yn dangos gweddill bach ac yn dangos cynnydd da. Byddai'r Datganiadau terfynol yn cael eu cyflwyno i gyfarfod nesaf y PAR.</p> <p>O ran 2020/21, roedd PC ar y blaen i'r rhagolygon. Roedd yr arian a gynhyrchwyd yn gadarn ac roedd swyddogion yn gweithio ar sicrhau llinell gwaelodlin priodol a fyddai'n cael ei fonitro'n ofalus.</p>	
20.38 Materion y Bwrdd Academaidd	YSTYRIODD CPC adroddiad cyfarfod y Bwrdd Academaidd a gynhaliwyd ar 18 Tachwedd 2020 (UWC 166).	
20.39 Adroddiad ar y defnydd o Sêl PC	DERBYNIODD CPC yr adroddiad ar y defnydd o Sêl y Brifysgol (UWC167) a CHYMERADWYODD ei defnydd.	
20.40 Adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2020	YSTYRIODD CPC adroddiad cyfarfod y Pwyllgor Academaidd a gynhaliwyd ar 5 Tachwedd 2020 (UWC 168).	
20.41 Datganiadau buddiannau	Ni nodwyd unrhyw ddatganiadau buddiannau ychwanegol yn ystod y cyfarfod.	
20.42 Dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf	Trefnwyd y cyfarfod nesaf ar gyfer 28 Ionawr 2021.	

Daeth cyfarfod i ben 11.50